| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **15 Rhagfyr 2015** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Y Cyng. Julian Thompson-Hill - Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad**<br>**Alan Smith - Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio**<br>**Liz Grieve - Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Heidi Gray - Swyddog Cynllunio Strategol a Pherfformiad** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Perfformiad y Cynllun Corfforaethol Chwarter 2 – 2015/16** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r papur hwn yn cyflwyno diweddariad ar ddarpariaeth Cynllun Corfforaethol 2012-17 ar ddiwedd chwarter 2 o 2015/16.

1.2 Mae Atodiad 1 yn cynnwys yr adroddiad chwarterol llawn a gynhyrchwyd gan System Rheoli Perfformiad Verto, gan ganolbwyntio ar yr eithriadau yn unig.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu gwybodaeth am gynnydd y Cyngor ar ddiwedd chwarter 2, 2015-16 i gyflawni canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol.

2.2 Mae adrodd yn ôl yn rheolaidd yn un o ofynion monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella.

2.3 Rydym yn monitro ein perfformiad yn rheolaidd, yn cyflwyno adroddiadau chwarterol i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a'r Cabinet ac yn llunio Adroddiad Perfformiad Blynyddol i werthuso cynnydd.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor yn defnyddio'r adroddiad hwn i nodi meysydd gwasanaeth penodol (neu feysydd gwaith) a fyddai'n elwa o archwilio manwl i wella canlyniadau ar gyfer dinasyddion a pherfformiad cyffredinol y Cyngor, ac i hwyluso cyflwyno'r Cynllun Corfforaethol.

## 4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae Adroddiad Perfformiad Chwarter 2, 2015-16 (Atodiad 1) yn edrych ar Gynllun Corfforaethol 2012-17 a'r Gofrestr Prosiectau Corfforaethol ac mae'n rhoi asesiad yn seiliedig ar dystiolaeth am y sefyllfa bresennol.

4.2 Mae'r Crynodeb Gweithredol yn cynnwys dadansoddiad o eithriadau allweddol, lle awgrymir y rhoddir sylw.

4.3 Mae'r eithriadau hyn wedi cael eu hamlygu fel a ganlyn: Mae nifer o ddangosyddion a mesurau wedi'u hamlygu fel 'Coch' o fewn yr adroddiad. Mae hyn yn golygu eu bod yn cael eu nodi fel 'Blaenoriaeth ar gyfer Gwella' neu lle mae problem gyda'r data sydd angen ei godi.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

5.1 Mae'r adroddiad hwn am ein cynnydd wrth ddarparu'r Cynllun Corfforaethol. Dylai unrhyw benderfyniad a wneir gyfrannu at ddarpariaeth lwyddiannus o'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2012-17 yn amlinellu faint o arian yn ychwanegol y mae'r cyngor yn bwriadu ei fuddsoddi ym mhob blaenoriaeth gorfforaethol yn ystod y 5 mlynedd nesaf. Ar wahân i'r buddsoddiad ychwanegol hwnnw, cymerir yn ganiataol y gellir cyflawni'r cynllun corfforaethol o fewn y cyllidebau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a'i atodi i'r adroddiad.**

7.1 Cynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb ar y Cynllun Corfforaethol a'i gyflwyno i'r Cyngor ar 9 Hydref 2012. Nid oes angen asesu'r adroddiad hwn ymhellach gan na fydd yr argymhellion o'i fewn ag effaith uniongyrchol ar ein staff nac ar ein cymunedau.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Mae'r wybodaeth angenrheidiol i gynhyrchu'r adroddiad hwn yn dod o wasanaethau, ac mae'r eithriadau drafft wedi eu trafod a'u dosbarthu i alluogi Uwch Dîm Arweinyddiaeth i gymryd unrhyw gamau cywirol y maent yn ei ystyried yn angenrheidiol er mwyn cynhyrchu'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a'r Cabinet.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Nid oes angen datganiad Prif Swyddog Cyllid ar gyfer yr adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1. Mae gennym fframwaith rheoli perfformiad cadarn, proses Herio Perfformiad Gwasanaethau cadarn a Phwyllgor Archwilio Perfformiad cryf.

10.2 Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risg Corfforaethol a'r Gofrestr Risg Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli)

digwyddiadau posibl o risg a allai olygu na fyddai'r cyngor yn gallu cyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae rheoli perfformiad a monitro yn elfen allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella, sydd wedi ei thanategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

11.2 Mae erthyglau 6.1 a 6.3.4(b) yn amlinellu rôl y swyddogaeth archwilio o ran monitro a rheoli perfformiad.